# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

**Dyddiad: 30/01/20**

**Teitl: Cynllun Gweithredu Tai 2020 i 2025**

**Pwrpas: Canfod barn a mewnbwn y Pwyllgor Craffu ar y cynigion a nodir yn Atodiad A o'r adroddiad hwn, mewn perthynas â llunio Cynllun Gweithredu Tai**

**Swyddog cyswllt: Dafydd Gibbard, Pennaeth Adran Tai ac Eiddo**

**Aelod Cabinet: Craig ab Iago, Aelod Cabinet Tai ac Eiddo**

---

**1. Cyflwyniad / Cefndir**

1.1. Ym mis Mehefin y llynedd bu i'r Cyngor fabwysiadu Strategaeth Tai 2020 i 2025 gyda'r uchelgais o "**Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd"**.

1.2. Bydd y Pwyllgor Craffu Gofal hefyd yn ymwybodol o'r penderfyniad a gymerwyd yn gynharach yn y flwyddyn i greu'r Adran Tai ac Eiddo, gyda'r nod o uchafu ein gallu i fanteisio ar adnoddau yn deillio o'r premiwm Treth Cyngor ail-gartrefi er mwyn rhoi sylw penodol i'r heriau tai sy'n wynebu trigolion y Sir.

1.3. Diben yr adroddiad hwn yw i ddiweddaru'r Pwyllgor Craffu Gofal o'r gwaith sydd ar droed i ddatblygu datrysiadau penodol i'r heriau yma, ac i ymgynghori â'r Pwyllgor cyn i'r rhaglen wariant arfaethedig gael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Cabinet yn ddiweddarach ym mis Mawrth eleni.

**2. Y prif heriau Tai yng Ngwynedd**

2.1. Mae'r Strategaeth Tai wedi sefydlu bod angen mynd i'r afael a'r prif heriau canlynol:

| Prif Heriau | Crynodeb |
|---|---|
| Cynnydd yn nifer o bobl hyn | Taflunnir y bydd cynnydd o 60% yn y nifer o bobl dros 80 yng Ngwynedd yn y 20 mlynedd nesa – mae natur ac adeiladwaith rhai tai yn rhwystr i bobl hŷn barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref |
| Diffyg tai fforddiadwy | • Amcangyfrifir diffyg blynyddol o 580.<br>• Mae 60% o brynwyr wedi eu prisio allan o'r farchnad dai oherwydd bod canfod blaendal morgais yn broblem<br>• Mewn rhai cymunedau mae angen 7 gwaith yr incwm cyfartalog i brynu eiddo |
| Nifer uchel o dai gwag yn y Sir | Mae 1,300 o dai gwag ar draws y Sir gyda nifer mewn cyflwr gwael |

| | |
|---|---|
| Diffyg Tai Cymdeithasol | Mae 2,000 o bobl ar y Gofrestr Tai yng Ngwynedd heddiw |
| Safonau tai gwael | Mae 700 o achosion blynyddol yn ymwneud â safonau tai gwael yn y sector preifat. |
| Cynnydd mewn digartrefedd | • Gwelwyd cynnydd o 36% yn y galw am y gwasanaeth digartrefedd ers 2014/15<br>• Cefnogir 2,300 o bobl pobl pob blwyddyn gan y Gwasanaeth Digartrefedd<br>• Mae diffyg opsiynau llety parhaol sydd yn ei dro yn arwain at gorddefnydd o lety gwely a brecwast |
| Tlodi Tanwydd | Amcangyfrifir fod 20% o boblogaeth Gwynedd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd |

**3. Adnoddau sydd ar gael 2020/ 2025**

3.1. Er mwyn mynd i'r afael a'r heriau hyn bwriedir llunio Cynllun Gweithredu Tai, sef cyfres o brosiectau penodol. Rhan annatod o'r broses o greu Cynllun fel hwn yw adnabod yr adnoddau ariannol sy'n debygol o fod ar gael. Ni allwn gyflawni heb fuddsoddi ac mae'n annhebygol y gallwn ymateb i'r heriau sydd wedi eu hadnabod heb fod yn fodlon defnyddio ei hadnoddau ariannol i alluogi gwneud datblygiadau yn hyfyw.

| Ffynhonnell | Gwerth (2020 to 2025) |
|---|---|
| Incwm o Dreth Cyngor ail gartrefi a thai gwag | £13.5m |
| Grant Tai Cymdeithasol | £11m |
| Cynllun Rheoli Asedau'r Cyngor:<br>Tai Gofal Estynedig = £2.5M<br>Hostel yn Ne'r Sir = £0.5M<br>Grantiau Addasiadau Tai = £6.5M | £9.5m |
| **Cyfanswm** | **£34m** |

3.2. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd cyfanswm yr adnodd fyddai ei angen pe byddem yn dymuno cyflawni popeth yr hoffem ei wneud yn bell tu hwnt i'r adnoddau sydd ar gael. I wireddu'r amcanion bydd angen manteisio ar gyfleoedd i uchafu cyfraniadau grant ac ystyried benthyciadau darbodus. Mae gwaith ar droed i sefydlu ein gallu i uchafu'r adnoddau fydd ar gael drwy ddefnyddio'r dulliau hyn.

3.3. Byddwn hefyd yn edrych i gryfhau ein cydweithio gyda’r Cymdeithasau Tai a phartneriaid eraill yng Ngwynedd gan anelu i uchafu effaith ein hadnoddau a’n buddsoddiad ar y cyd i geisio ateb yr heriau yn y maes tai. Rydym yn trafod gyda phartneriaid allanol i ddeall mwy am eu blaenoriaethau a’u cynlluniau dros y 5 mlynedd nesaf a byddwn yn parhau i edrych am gyfleoedd i gyd-weithio dros y cyfnod dan sylw.

**4. Proses flaenoriaethu cynlluniau**

4.1. Mae angen sicrhau ein bod yn defnyddio’r adnoddau sydd gennym i sicrhau'r effaith fwyaf ar drigolion Gwynedd. Rydym wedi cychwyn y broses o geisio adnabod y cynlluniau allai gael yr ardrawiad mwyaf yng nghyswllt dileu neu lleihau’r prif heriau sy’n wynebu trigolion wrth geisio sicrhau cartrefi addas. Law yn law a hynny rydym wedi cychwyn edrych ar sut i oresgyn unrhyw rwystrau i’r cynlluniau rheini.

4.2. Yn ystod yr Hydref y llynedd bu i ni gynnal cyfarfod gyda holl staff yr Adran Tai ac Eiddo er mwyn adnabod beth yn eu tyb a’u profiad nhw fydda’n gallu helpu i ateb yr heriau. Adnabuwyd dros 50 o syniadau fel rhan o’r trafodaethau hyn.

4.3. Mae trafodaethau wedi’u cynnal gyda’r Adran Oedolion a Phlant yn ogystal â rhan-ddeiliad allanol eraill er mwyn canfod eu barn a’u dyheadau hwy am y cyfnod ac os oedd unrhyw beth ychwanegol i’r hyn mae staff wedi dweud wrthym yn barod.

4.4. Y cam nesaf fydd datblygu’r cynigion ymhellach er mwyn hwyluso’r broses o flaenoriaethu pa gynlluniau y dylid eu mabwysiadu a’u gweithredu.

4.5. Rhan allweddol o’r broses hon yw derbyn mewnbwn ac arweiniad y Pwyllgor Craffu Gofal. Mae gan y Pwyllgor brofiad eang o fod yn rhoi ystyriaeth i’r heriau yn y maes tai ac rydym yn awyddus i fanteisio'r ffynhonnell wybodaeth hon cyn mynd gam ymhellach

4.6. Yn Atodiad A mae rhestr hir o syniadau sydd wedi’u cynnig hyd yma. Gofynnir am farn y Pwyllgor ar rheini yn ogystal ag unrhyw gynnig arall i’w ystyried yn ystod y broses o flaenoriaethu.

**Atodiad A**

| Cyf. | Cynllun | Manylion |
|---|---|---|
| 1 | Cynyddu’r niferoedd o dai fforddiadwy i bobl leol | Gwyddom mai un o’r prif heriau yn y maes tai yw anhawster pobl leol i brynu eu cartrefi eu hunain yng Ngwynedd. Byddwn yn anelu i ddatblygu ein tai ein hunain a fydd yn cynyddu’r stoc o dai yn y cymunedau hynny lle mae’r galw yn bodoli. Byddwn yn ystyried amrywiaeth o fodelau prynu er mwyn sicrhau fod y tai hyn yn fforddiadwy i bobl leol. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | Prynu cyn-dai cymdeithasol | Byddai prynu cyn “dai cyngor” sydd ar werth yn ffordd o gynyddu’r niferoedd tai cymdeithasol ar gael i bobl leol. Byddai modd canolbwyntio ar dai sydd â chymal person lleol arnynt yn y lle cyntaf. |
| 3 | Cynyddu niferoedd tai cymdeithasol un llofft | Angen am fwy o unedau un llofft i alluogi pobl sengl symud o dŷ cymdeithasol sydd yn rhy fawr iddynt. Dyfodiad y “dreth llofftydd” wedi ychwanegu at anallu unigolion i allu ymdopi gyda’r gost o fyw mewn tŷ gyda llofftydd gwag ond nid oes cyflenwad o dai un llofft ar gael iddynt ystyried ail leoli ar hyn o bryd. |
| 4 | Prynu tai gwag | Mae gan Wynedd raddfa uwch na'r rhan fwyaf o Gymru o ran y niferoedd tai gwag yn ein cymunedau. Mae rhain yn stoc parod o dai fyddai'n addas ar gyfer cartrefu pobl leol. Byddwn yn uchafu'n ymdrechion yn y maes yma ac yn ystyried prynu tai gwag a'u gosod/gwerthu i bobl leol drwy amrywiaeth o fodelau daliadaeth gwahanol. |
| 5 | Trosi Tai Aml Ddeiliadaeth yn gartrefi teuluol | Cyfuniad o’r Cyngor yn prynu tŷ aml ddaliadaeth neu yn rhoi nawdd ariannol i berchennog ei drosi’n ôl i un tŷ annedd. Hyn yn berthnasol yn bennaf i ardaloedd lle bo tai aml ddaliadaeth yn segur oherwydd gor-ddarpariaeth neu yn is-safonol ar gyfer cartrefu nifer o unigolion digyswllt. |
| 6 | Sefydlu’r gwir angen am dai yn ein cymunedau | Er ein bod yn ymwybodol fod y galw am gartrefi yn uwch na’r cyflenwad fforddiadwy sydd ar gael yng Ngwynedd, mae angen gwaith pellach i sefydlu a meintoli’r union angen ym mhob ardal o’r sir. Ni fydd hyn yn ein hatal rhag gallu cychwyn ar ein cynlluniau ond wrth i ni symud ymlaen byddwn angen gwybod ymlaen llaw lle yn union mae’r galw am wahanol fathau o gartrefi. |
| 7 | Gwell defnydd o’r Grant Tai Cymdeithasol i gyfarch ein blaenoriaethau | O fod wedi sefydlu ein hanghenion cartrefu pobl leol yn gywir gallwn wedyn sicrhau ein bod yn cyfarch yr anghenion mwyaf yn gyntaf gan symud o weithredu ymatebol i weithredu rhagweithiol. Rydym hefyd angen sicrhau fod datblygiadau newydd yn cynnwys tai hyblyg y gellir eu haddasu’n rhwydd yn y dyfodol ac unedau wedi eu haddasu ar gyfer unigolion ag anableddau corfforol. |
| 8 | Gwrthod ceisiadau i godi amod person lleol ar gyn “dai Cyngor”. | Yn hanesyddol mae’r Cyngor wedi bod yn cytuno i godi amod person lleol osodwyd ar werthiannau o dan y cynllun Hawl i Brynu yn y Parc Cenedlaethol ac AHNE. Mae lle i ni ystyried bod yn fwy heriol gyda cheisiadau o’r fath a glynu at bwrpas gwreiddiol cymalau o'r fath. |
| 9 | Siop un stop i faterion Tai | Sefydlu un fynedfa i drigolion Gwynedd gael cymorth arbenigol gyda’u gofynion Tai. Ar hyn o bryd gall unigolyn orfod mynd i chwilio am gymorth at sawl adran wahanol o'r Cyngor neu at nifer o gyrff allanol. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r drefn yn gymhleth ac nid yw'n cynnig y cymorth gorau i drigolion Gwynedd ddatrys eu anghenion tai. |
| 10 | Adeiladu tai cymdeithasol | Cyngor i adeiladu tai cymdeithasol mewn lleoliadau lle mae’r angen am dai gan drigolion lleol yn glir. Gallwn wireddu hyn drwy bartneriaeth gyda’r Cymdeithasau Tai neu drwy adeiladu ein hunain. |
| 11 | Plotiau hunan adeiladu | Manteisio ar gynllun Llywodraeth Cymru i baratoi safleoedd yn barod ar gyfer datblygu tai drwy fodel “hunan adeiladu”. Cynorthwyo unigolion lleol i fynd drwy’r broses hunan adeiladu. |
| 12 | Tai gyda chefnogaeth - digartref | Angen mwy o gyfleusterau ‘tai gyda chefnogaeth’ gyda chartrefi un llofft gyda chefnogaeth i bobl ddigartref. Gall y gefnogaeth fod ar y safle neu yn symudol ei natur. |
| 13 | Tai gyda chefnogaeth – ieuenctid | Fel rhan o’r cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol, mae diffyg presennol yn y nifer o gartrefi sydd ar gael i’w cynnig i ieuenctid sydd yn gadael ein gofal yn ddeunaw oed. Mae diffyg hefyd yn y nifer unedau “tai gyda chefnogaeth” ar gyfer cartrefu ieuenctid sydd angen cymorth gan y Cyngor i fyw’n annibynnol. |
| 14 | Tai gyda chefnogaeth - henoed | Parhau gyda’r rhaglen o fuddsoddi mewn Tai Gofal Ychwanegol ac ystyried cynlluniau ar raddfa lai mewn ardaloedd eraill, o bosib gyda chefnogaeth Warden “symudol” yn cefnogi nifer o safleoedd o’r math yma. Hyn yn arwain at allu parhau i fyw’n annibynnol yn hirach. |
| 15 | Tai gyda chefnogaeth – oedolion gydag anableddau dysgu | Moderneiddio darpariaeth sy’n bodoli ar hyn o bryd. |
| 16 | Cartrefi addas i blant sydd ag anableddau corfforol | Mewn rhai achosion mae galluogi i blentyn fyw gartref gyda chyfleusterau gofal arbenigol yn golygu fod angen cyflawni addasiadau sylweddol i’w tai. Byddwn yn rhoi ystyriaeth i bob ateb allasai fod yn ymarferol ar gyfer trigolion Gwynedd mewn sefyllfaoedd fel hyn, boed hynny drwy ariannu addasiadau sylweddol, sicrhau mwy o ddarpariaeth arbenigol mewn datblygiadau newydd neu brynu/datblygu tai arbenigol ein hunain os fydd angen. |
| 17 | Tŷ hyblyg ar gyfer gofynion arbenigol dros dro | Ar adegau nid ydym yn gallu cartrefu rhai plant sy’n barod i adael gofal ysbyty. Mewn achosion lle na fu cyfle i gynllunio opsiynau cartrefu addas ymlaen llaw byddai tŷ hyblyg y gellid ei ddefnyddio i gwrdd ag anghenion cartrefu am gyfnod dros dro yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i’r teuluoedd hyn. |

| | | |
|---|---|---|
| 18 | Ychwanegiad i'r grantiau addasu tai (DFG) | Mae'r Cyngor eisoes yn cyllido grantiau i alluogi addasiadau i dai pobl sydd ag anableddau corfforol. Fel rhan o'n gwaith yn y maes yma rydym ar hyn o bryd yn cynnig benthyciad ar gyfer addasiadau yn ogystal â'r grant statudol gan fod hwnnw wedi ei gyfyngu i £36,000. Bydd y Cyngor yn parhau i reoli cynlluniau addasu fel hyn gan roi cefnogaeth arbenigol i'r teuluoedd gyflawni'r gwaith. |
| 19 | Grantiau i berchnogion tai aml ddaliadaeth (HMO) | Gwella'n gallu i sicrhau fod yr adeiladau hyn yn ddiogel ac o safon dderbyniol i breswylwyr drwy gynnig grantiau i wella'r adeilad. Hyn law yn llaw gyda gwaith gorfodaeth gan y Cyngor. |
| 20 | Diogelwch yn y Cartref | Cyflawni mân waith addasu (gosod canllaw, rampiau bychan ayb) er mwyn gwneud cartrefi'n ddiogel i breswylwyr barhau i fyw yn annibynnol yn hirach. Y gwaith yma wedi ei allanoli ar hyn o bryd. |
| 21 | Camau gorfodaeth brys i ddelio gyda sefyllfaoedd argyfyngus | Hwyluso gwaith gorfodaeth pan nad yw perchnogion tai yn cydymffurfio i gywiro peryglon. Defnyddir yr arian i wneud gwaith atgyweirio hanfodol i sicrhau iechyd a diogelwch y preswylwyr neu atal ymddygiad gwrth gymdeithasol mewn tai gwag. |
| 22 | Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf | Grantiau ar gyfer helpu prynwyr tro cyntaf adnewyddu tai gweigion i safon byw. |
| 23 | Eithriad treth cyngor ar dai gwag i brynwyr tro cyntaf | Ymestyn y cyfnod eithrio o dalu treth Cyngor ar dai gwag gan roi cyfnod ychwanegol i brynwyr tro cyntaf i gyflawni gwaith adfer hanfodol cyn y gellir meddiannu'r tŷ. |
| 24 | Benthyciadau i wneud gwaith brys | Nawdd ariannol i deuluoedd ar incwm isel i wneud gwaith gwella hanfodol i'w tai e.e. cywiro nam trydanol, atal to rhag gollwng ayb |
| 25 | Tai Gwag – Cymorth i berchnogion | Grant i berchnogion tai gwag ddod â'r tŷ yn ôl i ddefnydd gydag amodau ynghlwm i'r grant yn sicrhau bod hawliau enwebu tenantiaid yn aros gyda'r Cyngor am o leiaf 5 mlynedd. Y cynllun hwn sydd hefyd yn rhoi ffynhonnell o dai ar gyfer y cynllun lesu preifat a gynigir gan yr Uned Digartrefedd |
| 26 | Benthyciadau di gost i wella cyflwr tai | Benthyciadau ariannol i bobl leol wella tai mewn sydd mewn cyflwr gwael ar hyn o bryd. |
| 27 | Pecynnau cefnogaeth i landlordiaid preifat | Mae ein gallu i gartrefu unigolion digartref yn ddibynnol ar gefnogaeth y Cymdeithasau Tai a landlordiaid preifat. Mae angen pecyn cefnogaeth i landlordiaid preifat os am eu hannog i gynnig tenantiaeth i rai sy'n |

| | | |
|---|---|---|
| | | ddigartref. Mae'r Llywodraeth yn treialu pecyn cefnogaeth fel hyn ar hyn o bryd. |
| 28 | Hwb Iechyd Penygroes | Datblygiad cymysg a fyddai'n cynnwys unedau byw gyda chefnogaeth ynghyd â gwasanaethau iechyd/gofal lleol. |
| 29 | Frondeg, Caernarfon | Ystyried cynyddu'r nifer o unedau byw yn Frondeg, Caernarfon fel rhan o ail ddatblygiad o'r safle. |
| 30 | Cefnogaeth Tenantiaeth arbenigol | Mae cefnogi tenantiaid i barhau yn eu cartrefi yn rhan hanfodol o'n strategaeth i atal digartrefedd. Os na allwn atal digartrefedd yna byddwn angen cynyddu ymhellach ein hopsiynau llety dros dro a darparu mwy o gartrefi a chefnogaeth, sydd yn gostus. Mae'r ganran o denantiaethau dan fygythiad oherwydd materion iechyd meddwl ar gynnydd yn flynyddol ac mae angen cynyddu'r arbenigedd o fewn y tîm i gynorthwyo'r unigolion bregus hyn i osgoi colli eu tenantiaeth. |
| 31 | Bod yn barod i gyflawni | Os am gyflawni ein dyhead i wynebu'r her o ddarparu cartrefi addas i bobl Gwynedd yna byddwn angen buddsoddi i sicrhau fod y capasiti gennym i gyflawni a gwireddu yn y maes hwn. Bydd hynny'n golygu cynyddu'r adnodd sydd ar gael ar hyn o bryd er mwyn cyflymu'n gallu i gyflawni. |
| 32 | Prynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol | Mae gennym rhai safleoedd datblygu eisoes yn ein perchnogaeth a fydd yn ein galluogi i gychwyn ar ein cynlluniau mewn rhai ardaloedd lle mae'r angen gan drigolion lleol yn glir. Ond os am barhau wedi hynny, byddwn angen bod yn barod i ymateb yn gyflym i brynu tir adeiladu pan fydd y cyfle'n codi yn y lleoliadau cywir. |
| 33 | Bod yn barod i arloesi | Sefydlu proses o asesu cyfleoedd newydd drwy gydol oes y cynllun er mwyn sicrhau nad ydym yn colli cyfleoedd i ymgeisio am arian grant, gwireddu cyfleoedd a fydd yn codi ar hap, datblygu achosion busnes newydd, asesu dulliau arloesol o ddatblygu tai ayb |